# Arian Arts Award Uned 1 Rhan D: dysgu drwy ymchwil

gelfyddydol

Diben y daflen wybodaeth hon yn rhoi awgrymiadau i chi ar gyfer dysgu am artistiaid a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol.

Pa ffurfiau ar gelfyddyd sy'n mynd â'ch bryd? (E.e. drama/y celfyddydau gweledol/cerddoriaeth/dawns stryd)

Disgrifiwch y math o bobl neu yrfaoedd sydd ynghlwm â'r ffurfiau hyn ar gelfyddyd. (E.e. actor, cyfarwyddwr, cerddor, cynhyrchydd, coreograffydd, ysgrifennydd)

Ym mha fath o leoedd y gallent fod yn gweithio/arddangos/perfformio?

# Rhestr wirio ymchwil

Ymchwiliwch i'r ffurfiau hyn ar gelfyddyd, sefydliadau a phobl. Meddyliwch am:

- Sut y gallech gwrdd, siarad neu gydweithio ag un o'r bobl hyn?
- Sut mae pobl yn cymryd rhan yn y ffurfiau hyn ar gelfyddyd?

## Dyma rai syniadau am sut y gallech ddysgu am ymarferwyr celfyddydol a sefydliadau celfyd-dydol:

- cynnal cyfweliad dros e-bost ag ymarferwyr neu weithwyr celfyddydol proffesiynol
- cymryd rhan mewn gweithdy gyda pherson rydych yn ei ymchwilio
- recordio neu ffilmio cyfweliad ag ymarferydd
- mynychu cwrs am yrfaoedd creadigol
- mynychu dosbarth meistr
- cysgodi rhywun neu wneud profiad gwaith
- mynychu diwrnod agored coleg/prifysgol i ddysgu mwy am gyrsiau celfyddydol a hyfforddiant
- ymchwilio i gyrsiau hyfforddiant a chymwysterau yn y celfyddydau
- ymchwilio i leoliadau celfyddydol lleol a dysgu sut y gallwch chi gymryd rhan
- mynd ar daith gefn llwyfan

Cysylltwch â Chefnogwyr Arts Award lleol i ddysgu am yr hyn sy'n mynd ymlaen yn eich ard-al: artsaward.org.uk/supporter

Bydd angen i chi gofnodi sut ydych yn dysgu am ymarferwyr celfyddydol a sefydliadau celfy ddydol, a'r hyn a ddysgoch. Cofiwch gynnwys:

- Beth wnaethoch chi ei wneud i gymryd rhan gydag ymarferwyr celfyddydol a sefydliadau celfyddydol?
- Sut wnaethoch chi ddysgu am lwybrau gyrfaol ac addysgol yn y celfyddydau yn y dy-fodol?
- Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos yr hyn a wnaethoch?
- Beth wnaethoch chi ei ddysgu am ddatblygiad gyrfa a gwaith ymarferwyr?
- A wnaethoch chi ddod o hyd i gyfleoedd eraill o fewn eich ffurf ar gelfyddyd?
- Sut mae'r hyn y gwnaethoch ei ddysgu wedi cael dylanwad arnoch?

Bydd angen i chi grynhoi yn eich portffolio'r hyn a ddysgoch. Nodwch rai syniadau am sut fyddwch chi'n cyflwyno hyn yn eich ffordd unigryw eich hun: